# Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gymraeg Y Tymbl

## Adroddiad Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor **Sir Gâr**
**Carmarthenshire**
County Council

## CYNNWYS


1. **Crynodeb Gweithredol** ..... 3
2. **Cefndir** ..... 3
3. **Y Broses Ymgynghori** ..... 3
4. **Dadansoddi'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad** ..... 4
   - **4.1 Arolwg ar-lein** ..... 4
   - **4.2 Ymatebion a gyflwynwyd drwy lythyr** ..... 7
   - **4.4 Dadansoddi'r Ymgynghoriad â Disgyblion** ..... 8
   - **4.5 Ymateb Estyn:** ..... 10
5. **Casgliad** ..... 11
6. **Argymhelliad** ..... 12
7. **Y Camau Nesaf** ..... 12

**ATODIAD A – YMATEB ESTYN** ..... 13

**ATODIAD B – YMGYNGHORIAD Â DISGYBLION** ..... 16

## 1. CRYNODEB GWEITHREDOL

Cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ynglŷn â'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg y Tymbl o 4-11 i 3-11. Cafodd yr ymgynghoriad ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys rhieni, staff, llywodraethwyr ac aelodau o'r gymuned. Ar y cyfan, roedd yr ymateb yn gadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn mynegi cefnogaeth i'r cynnig a nifer llai yn mynegi eu pryderon neu'n gwrthwynebu agweddau penodol.

Ymhlith y themâu a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori roedd pwysigrwydd hwyluso proses bontio plant i ysgol amser llawn, effaith dyddiadau dechrau ar blant a rhieni sy'n gweithio, a'r angen i ystyried yr effeithiau ar ysgolion cyfagos. Roedd defnyddio a hyrwyddo'r Gymraeg yn cael ei ystyried yn ffafriol yn gyffredinol, er bod rhai ymatebwyr wedi tynnu sylw at feysydd lle gellid cryfhau neu egluro'r cynnig ymhellach.

## 2. CEFNDIR

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r adborth a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori, a gynhaliwyd rhwng 4 Medi 2025 a 16 Hydref 2025. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad mewn ymateb i gynigion i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Y Tymbl o 4-11 i 3-11 a chynnwys darpariaeth ar gyfer addysg feithrin ran-amser.

Mae'r adroddiad yn nodi'r broses ymgynghori, yn crynhoi'r ymatebion a gafwyd ac yn dadansoddi'r materion allweddol a'r sylwadau a gyflwynwyd gan randdeiliaid.

## 3. Y BROSES YMGYNGHORI

Dilynodd y broses ymgynghori ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a Chod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Rhoddodd y prosesau ymgynghori gyfle i ymgyngoreion rhagnodedig ddysgu am y cynnig a rhoi adborth.

Cyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar 4 Medi 2025. Cafodd y ddogfen ymgynghori ei dosbarthu'n electronig i ymgyngoreion rhagnodedig a'i chyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Roedd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori ar gael ar gais. Roedd y ddogfen ymgynghori yn amlinellu'r cynnig dan sylw, y rhesymau dros y cynnig a manylion yr ymarfer ymgynghori. Roedd y ddogfen ymgynghori hefyd yn cynnwys ffurflen ymateb unigol. Rhoddwyd gwybod i'r ymgyngoreion fod modd llenwi ffurflen ar-lein a ble y dylid anfon llythyrau ysgrifenedig neu ymatebion drwy e-bost.

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol Gymraeg Y Tymbl mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol.

## 4. DADANSODDI'R YMATEBION I'R YMGYNGHORIAD

Mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law rhwng 4 Medi a 16 Hydref 2025 wedi'u nodi isod:

| Arolwg ar-lein | E-bost | Llythyr | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 6 | 0 | 1 | 7 |

Yn ogystal â'r uchod, rhoddodd Estyn ymateb i'r ymgynghoriad a chasglwyd adborth gan y disgyblion.

---

### 4.1 AROLWG AR-LEIN

Cafwyd cyfanswm o chwe ymateb i'r arolwg ar-lein. Ni chafwyd unrhyw ymatebion ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben. Nodir yr ymatebion isod.

**C1. Ydych chi'n ymateb fel:**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Rhiant, gofalwr neu warcheidwad | 2 | Cyngor Cymuned | 0 |
| Llywodraethwr | 1 | Arall: | 1 |
| Aelod o'r gymuned | 1 | Staff | 1 |
| Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad | 0 | | |

**C2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?**

| Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno |
|---|---|---|
| 5 | 0 | 1 |

Mae adborth o'r arolwg yn awgrymu bod y cynnig yn cael ei groesawu, gan fod y rhan fwyaf o'r ymatebwyr wedi nodi eu bod yn ei gymeradwyo.

**C3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn yr hoffech i ni eu hystyried?**

| **C3 Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| **Cefnogi'r cynnig** | **Ddim yn cefnogi'r cynnig** |
| Mae hwyluso'r broses bontio i ysgol amser llawn yn bwysig ar gyfer llesiant plant a'u helpu i gynefino. | Pryder am yr effaith bosibl ar ysgolion lleol eraill. |
| Gallai'r cynnig fod o fudd i deuluoedd sydd heb fynediad at ofal plant â thâl. | |
| Gwerthfawrogiad am fynd i'r afael â bwlch yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar leol sydd wedi bodoli ers tro. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn pwysleisio pwysigrwydd trefniadau pontio cefnogol i blant sy'n dechrau'r ysgol, gan gydnabod eu heffaith gadarnhaol ar lesiant, yn enwedig i'r rhai heb brofiad blaenorol o ofal plant, a chyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, sy'n hyrwyddo trochi cynnar, dwyieithrwydd, a gwybodaeth glir i rieni. Bydd unrhyw newidiadau yn cydymffurfio â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan flaenoriaethu budd pennaf y dysgwyr, lleihau tarfu, a sicrhau darpariaeth hygyrch o ansawdd uchel. Bydd yr ysgol yn gweithio'n agos gyda theuluoedd a darparwyr blynyddoedd cynnar i sicrhau bod y trefniadau pontio yn diwallu anghenion plant ac yn cefnogi eu llesiant a'u datblygiad addysgol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon am effeithiau posibl ar ysgolion cyfagos ac mae wedi cynnal Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac Asesiad Effaith Integredig fel sy'n ofynnol yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), i ystyried y ddarpariaeth, y galw a'r effaith ar y gymuned. Yn unol â'i ymrwymiadau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod unrhyw newidiadau yn cefnogi twf addysg cyfrwng Cymraeg heb niweidio'r ddarpariaeth bresennol, gan ymgysylltu ag ysgolion a chymunedau yr effeithir arnynt, ystyried dewisiadau eraill, a chynllunio newidiadau mewn ffordd sy'n cynnal safonau uchel, yn cefnogi parhad ieithyddol, ac yn bodloni'r holl ofynion statudol o ran ymgynghori a gwneud penderfyniadau.

**C4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Tymbl yn eich barn chi?**

| | Oes | Nac oes |
|---|---|---|
| Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Cyngor fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Gymraeg Y Tymbl yn eich barn chi? | 2 | 4 |

**Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill**

- Ceisiadau am dymhorau dechrau cynharach (y tymor y mae'r plentyn yn troi'n 3 neu'n 4 oed).
- Pryderon am anfantais canfyddedig i blant a anwyd yn yr hydref.
- Cysylltiad rhwng mynediad cynharach a chyflogaeth rhieni.

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon ynghylch pryd y mae plant yn dechrau'r ysgol a'r effaith ar deuluoedd. Mae polisi 'Plant sy'n Codi'n 4 oed' yr Awdurdod Lleol yn nodi, o flwyddyn academaidd 2025/26, y bydd plant bellach yn dechrau ysgol gynradd amser llawn yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae'r Tymbl wedi cael ei nodi fel cymuned lle mae bylchau yn y ddarpariaeth addysgol. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn cynnig newid yr ystod oedran yn Ysgol Gymraeg Y Tymbl. Byddai hyn yn caniatáu i'r ysgol gynnig yr elfen o

| |
|---|
| 10 awr o leiaf o addysg anstatudol y Blynyddoedd Cynnar a sicrhau darpariaeth decach ledled Sir Gaerfyrddin.<br><br>Bwriad newid ystod oedran yr ysgol o 4–11 i 3–11 yw gweithio ochr yn ochr â'r darpariaeth blynyddoedd cynnar bresennol fel y Cylch Meithrin yn Llechyfedach, nid cymryd ei lle. Mae'r Cylch Meithrin yn canolbwyntio ar ofal cofleidiol a throchi yn y Gymraeg ond bydd darpariaeth feithrin yr ysgol yn darparu elfen addysgol y Cyfnod Sylfaen. Gall teuluoedd barhau i ddefnyddio'r Cylch Meithrin ar gyfer gofal plant a chymorth cofleidiol, gan alluogi'r ddau ddarparwr i gydweithio'n effeithiol. |

**C5. a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| **C5.a Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| **Cefnogi'r cynnig** | **Ddim yn cefnogi'r cynnig** |
| Mae trochi cynnar yn y Gymraeg i ddisgyblion iau yn fuddiol. | Pryderon ynghylch amseriad/oedran i blant o aelwydydd di-Gymraeg (anhawster canfyddedig i gaffael y Gymraeg os ydynt yn dod i gysylltiad â'r iaith yn ddiweddarach). |
| Ffafriaeth gyffredinol tuag at gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gefnogaeth i drochi cryfach yn y Gymraeg a mwy o gyfleoedd i ddefnyddio'r iaith. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y pryderon ar gyfer dysgwyr o gartrefi di-Gymraeg ac wedi lliniaru'r effeithiau posibl drwy'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg.

Mae mynychu meithrinfa ran-amser yn 3 oed yn ddewisol. Yr oedran ysgol statudol yw 5, er bod y rhan fwyaf o blant yn dechrau addysg gynradd yn 4 oed. Felly, mater i'r rhieni fydd penderfynu a ddylai eu plentyn ddechrau'n gynharach, yn dibynnu ar eu parodrwydd.

**C5. b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effeithiau cadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| **C5.b Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** |
|---|
| Dymuno bod plant yn dechrau'r ysgol yn gynharach (y tymor y mae'r plentyn yn troi'n 3 oed) |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae polisi 'Plant sy'n Codi'n 4 oed' yr Awdurdod Lleol yn galluogi plant sy'n troi'n bedair oed yn ystod y flwyddyn ysgol i ddechrau'r ysgol yn gynharach, gan gynnig mwy o hyblygrwydd i deuluoedd. Gan ddechrau o flwyddyn academaidd 2025/26, bydd plant yn mynd i ysgol gynradd amser llawn yn y tymor ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae'r Tymbl wedi cael ei nodi fel cymuned lle mae bylchau yn y ddarpariaeth addysgol. O ganlyniad, mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Y Tymbl. Byddai hyn yn caniatáu i'r ysgol gynnig yr elfen o 10 awr o leiaf o addysg anstatudol y Blynyddoedd Cynnar a sicrhau darpariaeth decach ledled Sir Gaerfyrddin.

**C5. c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?**

| **C5.c Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** |
|---|
| Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau ar gyfer y cwestiwn hwn. |

## 4.2 YMATEBION A GYFLWYNWYD DRWY LYTHYR

Cafwyd un ymateb drwy lythyr yn ystod y cyfnod ymgynghori. Ni chafwyd unrhyw ymatebion drwy lythyr ar ôl i'r ymgynghoriad ddod i ben.

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion a gyflwynwyd drwy lythyr** | |
|---|---|
| **Themâu yn cytuno â'r cynnig** | **Themâu yn erbyn y cynnig** |
| Gwella'r ddarpariaeth a'r broses bontio o ran y Blynyddoedd Cynnar. | Darpariaeth feithrin trochi'n llawn yn y Gymraeg – angen eglurder. |
| Ehangu a chryfhau'r defnydd o'r Gymraeg. | Monitro dilyniant iaith. |
| Cefnogaeth i strategaethau datblygu iaith. | Cyd-fynd yn strategol â nodau categori iaith. |
| Effaith gadarnhaol ar hyfywedd yr ysgol. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol**

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r gefnogaeth gref i gyflwyno darpariaeth feithrin yn Ysgol Gymraeg Y Tymbl i wella addysg y blynyddoedd cynnar a darparu proses bontio fwy hwylus i blant iau. Mae'r Awdurdod yn cydnabod y bydd y cynnig yn cryfhau datblygu'r Gymraeg drwy drochi cynnar a pharhad, gan gyd-fynd ag amcanion strategol i ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd o'r farn bod y newidiadau yn fuddiol o ran cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol, gan gynnig mwy o ddewis i rieni a chreu cyfleoedd i ddenu mwy o

ddisgyblion. Cydnabyddir bod y cynnig yn gam cadarnhaol tuag at wella deilliannau addysgol, cefnogi teuluoedd, a hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned.

Gan fod Ysgol Gymraeg Y Tymbl yn cael ei dosbarthu fel ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg, byddai cymeradwyo'r cynnig yn golygu bod yr holl ddarpariaeth ran-amser yn cael ei chyflwyno drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig.

Bydd yr ysgol yn sicrhau bod ei staff yn gwbl alluog i gyflwyno'r cwricwlwm yn hyderus yn y Gymraeg.

Bydd yr holl adborth a risgiau a nodir yn cael eu hystyried yn gydwybodol, a bydd mesurau lliniaru yn cael eu hymgorffori mewn cynlluniau gweithredu os oes angen i sicrhau bod y cynigion yn sicrhau'r budd mwyaf posibl i ddysgwyr, teuluoedd a'r Gymraeg.

## 4.4 DADANSODDI'R YMGYNGHORIAD Â DISGYBLION

Ymgynghorwyd â disgyblion Ysgol Gymraeg Y Tymbl ar 7 Hydref 2025 mewn sesiwn bwrpasol gydag aelodau o'r Cyngor Ysgol. Mae dadansoddiad llawn o'r ymatebion a gafwyd yn Atodiad B

| **Dadansoddi themâu allweddol yr ymatebion** | |
|---|---|
| **C1. Ydych chi'n gwybod efallai y byddwn yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma?** | |
| Mae mynediad cynnar at addysg i blant iau yn beth cadarnhaol. | Mae mynychu'r ysgol yn fuddiol ar gyfer llesiant plant. |
| Byddai'r cynnig yn cefnogi rhieni sy'n gweithio drwy ddarparu gofal plant lleol. | Byddai'n galluogi mynediad at addysg i blant 3 oed yn yr ardal leol. |
| Byddai'r newid yn gwella'r broses bontio o'r Cylch Meithrin i'r ysgol. | Byddai'n sicrhau tegwch gydag ysgolion 3-11 eraill ac yn cefnogi datblygiad sgiliau cynnar. |
| **C2. Sut fyddech chi'n teimlo am gael plant sy'n iau na chi yn yr ysgol?** | |
| Gall disgyblion hŷn fod yn esiamplau a helpu plant iau i ymgartrefu yn yr ysgol. | Byddai croesawu plant iau yn sicrhau hawliau cyfartal a mynediad at addysg. |
| Byddai'r newid yn creu ffrindiau newydd ac yn cynyddu cymuned yr ysgol. | Byddai mynediad cynnar at addysg cyfrwng Cymraeg yn cael ei gefnogi. |
| **C3. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ysgol?** | |
| Mwynhau teithiau ysgol, athrawon cefnogol, amser chwarae, dysgu, ffrindiau ac addysg gorfforol. | Mwynhau chwarae yn yr awyr agored a chymdeithasu â ffrindiau. |

| | |
|---|---|
| Gwerthfawrogi athrawon cefnogol ac ymrwymedig. | Profiadau cadarnhaol gyda thechnoleg ac adnoddau dysgu. |
| **C4. Beth allai fod yn dda am fwy o blant ifanc yn dod i'n hysgol?** | |
| Cyfleoedd i wneud ffrindiau a gweithgareddau newydd. | Gall disgyblion hŷn fod yn esiamplau. |
| Mae plant iau yn cael budd o addysg gynnar a mwy o hyder. | Dysgu Cymraeg yn gynnar. |
| Gall brodyr a chwiorydd fynychu'r ysgol gyda'i gilydd. | Datblygiad sgiliau cynnar, yn enwedig i'r rhai sydd heb adnoddau gartref. |
| **C5. A oes unrhyw beth rydych chi'n poeni amdano os yw'r ysgol yn newid?** | |
| Pryder posibl y gallai athrawon fod dan fwy o straen. | Pryder y gallai peidio â newid i 3-11 arwain at lai o ddisgyblion a chau'r ysgol o bosib. |
| **C6. Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr oedolion sy'n gwneud y penderfyniad?** | |
| Addysg gynnar a meithrin hyder i blant iau. | Dysgu Cymraeg yn gynnar. |
| Cefnogaeth ar gyfer y broses bontio a pharhad o leoliadau blynyddoedd cynnar. | Manteision cymunedol, gan gynnwys gofal plant lleol a chynaliadwyedd yr ysgol. |
| Mynediad teg at addysg y blynyddoedd cynnar. | |

**Ymateb yr Awdurdod Lleol i adborth gan ddisgyblion:**

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod ac yn croesawu'r gefnogaeth gref a fynegwyd i fynediad cynnar at addysg a'r manteision eang y mae disgyblion yn eu cysylltu â hynny. Nodir bod y disgyblion wedi tynnu sylw at well llesiant, proses bontio fwy hwylus i fywyd ysgol, a phwysigrwydd cymorth gan gyfoedion i helpu plant iau i addasu.

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gwerth y mae disgyblion yn ei roi ar amgylchedd ysgol cefnogol a diddorol. Mae hyn yn cynnwys gweithgareddau cyfoethogi, perthnasoedd cadarnhaol, cyfleoedd i chwarae a dysgu, mannau awyr agored, a mynediad at dechnoleg. Mae pwyslais disgyblion ar ddatblygiad iaith cynnar, yn enwedig drwy drochi yn y Gymraeg, yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol allweddol a byddant yn cael eu hystyried wrth gynllunio unrhyw newidiadau.

Nodir bod disgyblion wedi nodi manteision cymunedol ehangach sy'n gysylltiedig â darpariaeth blynyddoedd cynnar, gan gynnwys mynediad tecach, cymorth i

deuluoedd sy'n gweithio, a chryfhau cysylltiadau cymunedol. Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi'r manteision cymdeithasol ac ieithyddol ac o ran meithrin hyder sy'n gysylltiedig â phlant iau yn mynychu'r ysgol yn lleol, yn ogystal â'r manteision sy'n gysylltiedig â chadw teuluoedd gyda'i gilydd a lleoliadau ysgol cynhwysol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu'r ffaith nad oes pryderon sylweddol ond mae'n cydnabod y potensial ar gyfer cynyddu'r llwyth gwaith neu straen i'r staff. Bydd llesiant staff, cynaliadwyedd yr ysgol, a'r effaith ar nifer y disgyblion i gyd yn cael eu hystyried yn ofalus fel rhan o'r broses statudol o wneud penderfyniadau. Os bydd y cynnig yn cael ei weithredu, bydd unrhyw newidiadau yn cael eu gwneud mewn modd sensitif, gan roi cefnogaeth briodol i ddisgyblion, staff a theuluoedd os oes angen.

## 4.5 YMATEB ESTYN:

Mae Estyn o'r farn bod y cynnig "yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3-11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â chynnig 4-11 presennol yr ysgol". Mae themâu allweddol ymateb Estyn yn cael eu crynhoi yn y tablau sy'n dilyn. Mae ymateb llawn Estyn wedi'i gynnwys yn Atodiad A.

| **Thema 1: Safonau a Darpariaeth Addysgol** |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu barn Estyn y bydd y cynnig yn cynnal neu'n gwella safonau addysgol cyfrwng Cymraeg i blant 3–11 oed. Yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel, nodi anghenion dysgu yn gynnar, a chymorth cynhwysol i bob dysgwr, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY ac o gefndiroedd difreintiedig. |

| **Thema 2: Rhesymau a Manteision** |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod barn Estyn bod y cynnig i ymestyn ystod oedran Ysgol Gymraeg Y Tymbl o 4–11 i 3–11 yn rhesymegol ac yn mynd i'r afael â bwlch mewn darpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg yn y dalgylch. Mae'r cynnig yn amlinellu manteision megis gwell mynediad at addysg Gymraeg, proses bontio fwy hwylus rhwng darpariaeth feithrin a chynradd, a chymorth i deuluoedd sy'n teithio i rywle arall ar hyn o bryd ar gyfer addysg gynnar. Mae'r cynnig hefyd yn nodi'r lleihad posibl yn nifer y lleoedd gwag, gan wella cynaliadwyedd hirdymor yr ysgol, a chost-effeithiolrwydd, gan fod modd ehangu'r ddarpariaeth gan ddefnyddio cyfleusterau presennol heb fod angen cyllid cyfalaf. Mae'r cynnig yn hyrwyddo cymunedau dysgu cynaliadwy yn unol ag amcanion strategol ac yn bodloni'r Cod Trefniadaeth Ysgolion trwy ddangos manteision clir o ran addysg a threfniadaeth ysgolion. |

| **Thema 3: Risgiau a Mesurau Lliniaru** |
|---|
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol:**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod effaith bosibl cyflwyno darpariaeth feithrin ar feithrinfeydd preifat a gwarchodwyr plant ac mae'r rhanddeiliaid hyn wedi'u hystyried fel rhan o'r cynnig. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod nad yw addysg y blynyddoedd cynnar yn statudol ac nad yw cludiant am ddim ar gael i blant 3 oed, |



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

| |
|---|
| a allai fod yn heriol i rai teuluoedd. Fodd bynnag, mae'r cynnig hefyd yn tynnu sylw at y manteision i deuluoedd sy'n teithio y tu allan i'r dalgylch ar hyn o bryd a'r manteision ehangach sy'n gysylltiedig â gwella'r ddarpariaeth blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y risgiau wedi'u nodi'n glir a bod camau rhesymol wedi'u cymryd i leihau canlyniadau negyddol wrth gefnogi gwell mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. |
| **Thema 4: Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg** |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu ffocws cryf y cynnig ar hyrwyddo'r Gymraeg a meithrin ymgysylltu cymunedol. Bydd cyflwyno meithrinfa cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Gymraeg Y Tymbl yn gwella mynediad at addysg Gymraeg i deuluoedd lleol ac yn darparu parhad rhwng y blynyddoedd cynnar a'r ysgol gynradd, yn unol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod yr Asesiad cysylltiedig o'r Effaith ar y Gymraeg yn dangos ystyriaeth ofalus o ffactorau diwylliannol a chymdeithasol. Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y bydd y ddarpariaeth newydd yn cefnogi datblygiad iaith, yn cryfhau cysylltiadau cymunedol, ac yn lleihau'r angen i deuluoedd deithio y tu allan i'r dalgylch ar gyfer addysg gynnar. |
| **Thema 5: Logisteg a Gweithredu** |
| **Ymateb yr Awdurdod Lleol**<br>Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi bod y cynnig yn cyflwyno'r broses statudol a'r amserlen a ragwelir, gyda'r bwriad o weithredu'r cynnig ym mis Medi 2026. Er yr ystyrir bod y cyfleusterau presennol yn ddigonol ac nad oes angen cyllid cyfalaf, mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod nad yw cynllun pontio manwl wedi'i ddarparu eto. Bydd cyllid fformiwla dirprwyedig yn cefnogi'r ddarpariaeth newydd, ac mae'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y broses weithredu yn debygol o fod yn syml. Bydd gwaith cynllunio pellach yn mynd i'r afael ag addasiadau gweithredol, staffio, a pharodrwydd ar gyfer y dyddiad dechrau. |

## 5. CASGLIAD

Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod y gefnogaeth gref a gafwyd yn ystod yr ymgynghoriad statudol ar y cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Y Tymbl o 4–11 i 3–11. Roedd yr adborth gan rieni, staff, llywodraethwyr, aelodau o'r gymuned a disgyblion yn dangos gwerthfawrogiad clir o fanteision cael mynediad cynnar at addysg, proses bontio fwy hwylus i'r ysgol, a gwell darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Roedd yr ymatebwyr yn cydnabod y potensial ar gyfer canlyniadau addysgol, cymdeithasol ac ieithyddol cadarnhaol, yn ogystal â'r manteision ehangach o ran y gymuned a theuluoedd, gan gynnwys cefnogaeth i rieni sy'n gweithio a mynediad tecach at addysg y blynyddoedd cynnar. Nododd yr ymgynghoriad hefyd nifer fach o bryderon, yn bennaf yn ymwneud â phryd mae plant yn dechrau'r ysgol, effeithiau posibl ar ysgolion cyfagos, llwyth gwaith staff, a darparu cymorth o ran y Gymraeg i deuluoedd di-Gymraeg.

Mae'r Awdurdod Lleol yn croesawu asesiad cadarnhaol Estyn o'r cynnig, gan nodi ei fod yn debygol o gynnal neu wella safonau addysgol cyfrwng Cymraeg a'i fod yn



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

mynd i'r afael â bwlch a nodwyd yn y ddarpariaeth blynyddoedd cynnar yn y dalgylch. Mae'r cynnig yn cael ei ystyried yn un rhesymegol a chost-effeithiol sy'n cyd-fynd yn strategol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, gan gefnogi trochi cynnar, dwyieithrwydd, a pharhad o'r addysg feithrin i addysg gynradd.

Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod y ddarpariaeth feithrin a gyflwynir yn gweithredu yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gyfathrebu'n glir â rhieni a monitro datblygiad iaith disgyblion yn gadarn. Mae'r cynnig yn cyd-fynd ag amcanion strategol ar gyfer cymunedau dysgu cynaliadwy, hyfywedd ysgolion, ac ymgysylltu cymunedol. Bydd y gwaith cynllunio yn ystyried trefniadau gweithredol, staffio, a chymorth pontio i sicrhau llesiant disgyblion a staff, a bydd yr holl adborth a risgiau a nodir yn ystod yr ymgynghoriad yn llywio cynlluniau gweithredu terfynol.

Mae'r Awdurdod Lleol yn dod i'r casgliad bod y cynnig yn ddatblygiad cadarnhaol a chynaliadwy i Ysgol Gymraeg Y Tymbl. Bydd yn gwella deilliannau addysgol, yn cryfhau'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, yn cefnogi teuluoedd, ac yn meithrin cydlyniant cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn bwrw ymlaen â'r broses statudol o wneud penderfyniadau yn unol â'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan sicrhau mai budd pennaf dysgwyr yw'r flaenoriaeth o hyd a bod y gwaith o gyflwyno darpariaeth feithrin yn cael ei gynllunio'n ofalus a'i weithredu'n effeithiol.

## 6. ARGYMHELLIAD

Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ac asesu'r cynnig, argymhellir y dylid gofyn am ganiatâd i weithredu'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Y Tymbl o 4–11 i 3–11 heb ddiwygiad.  Mae'r argymhelliad hwn yn adlewyrchu manteision y cynnig a nodwyd, gan gynnwys mwy o ddewis i rieni, gwell parhad addysg, gwella cynaliadwyedd yr ysgol, ac effeithiau cadarnhaol ar gyfle cyfartal a datblygu'r Gymraeg.

## 7. Y CAMAU NESAF

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet a fydd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cynigion ai peidio neu eu cymeradwyo gydag addasiad.

Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol os bydd y Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynigion.


Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## ATODIAD A – YMATEB ESTYN

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

Cyflwyniad

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr.

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Gymraeg Y Tymbl o 4-11 i 3-11.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae Estyn yn ystyried bod y cynnig yn debygol o gyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3–11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â chynnig 4–11 presennol yr ysgol.

**Disgrifiad a manteision**

Mae'r Cyngor yn cyflwyno rhesymeg glir ar gyfer y cynnig hwn, sy'n amlinellu manteision newid yr ystod oedran yn Ysgol Gymraeg Y Tymbl o 4–11 i 3–11. Er ei fod yn amlinellu'r weithdrefn statudol ac amserlen ragamcanol, yr unig ddyddiad gweithredu sydd wedi'i gadarnhau yw mis Medi 2026, heb unrhyw gynllun awgrymedig ar gyfer y cyfnod pontio. O ystyried bod y cynnig yn amlinellu bod cyfleusterau digonol yn yr ysgol ar hyn o bryd, byddai'n rhesymol tybio y byddai gofynion pontio yn fach iawn.

Mae'r cynnig yn nodi manteision ac anfanteision mewn ffordd gytbwys ac yn cynnwys mesurau i reoli risgiau posibl. Mae'n ymddangos bod y manteision yn gorbwyso'r anfanteision. Risg nodedig yw'r effaith bosibl ar ddarparwyr meithrinfeydd a gwarchodwyr plant preifat, ac mae'r Cyngor yn ymrwymo i ymgynghori'n agored â darparwyr i asesu unrhyw effaith bosibl. Mae'r cynnig yn nodi nad oes unrhyw ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar o fewn dalgylch yr ysgol ar hyn o bryd.

Mae'r ddogfen ymgynghori'n cymharu'r cynnig yn erbyn cynnal y sefyllfa bresennol gyda'r hyn sy'n ymddangos yn rhesymu clir. Mae'r awdurdod yn nodi nad oes cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion 3 oed, gan fod addysg y blynyddoedd cynnar yn anstatudol. Wrth wneud ei benderfyniad, mae'r Cyngor yn ystyried effaith costau teithio ar deuluoedd incwm isel a sut gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar drefniadau teithio'r rhai sy'n teithio'r tu allan i'w dalgylch ar hyn o bryd i gael addysg gynnar. Yn ychwanegol, mae'n awgrymu y bydd y cynnig yn helpu cau'r bwlch yn narpariaeth y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant 3 oed yn nalgylch Ysgol Gymraeg Y

Tymbl. Hefyd, disgwylir y bydd y newidiadau'n lleihau nifer y lleoedd dros ben yn yr ysgol. Rhagamcenir ar hyn o bryd y bydd 91 o leoedd ym mis Ionawr 2027.

Mae'r cynnig yn ystyried yr effaith ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ac yn dangos bod hyn yn cyd-fynd â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA). Byddai dosbarth Meithrin cyfrwng Cymraeg yn gwneud y Gymraeg yn fwy hygyrch yn y gymuned leol, gan gryfhau'r cyfnod pontio rhwng darpariaeth feithrin ac addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.

Os caiff ei gymeradwyo, ni fyddai angen cyllid cyfalaf ar y cynnig. Gallai ystafell ddosbarth bresennol dderbyn disgyblion ychwanegol yn y dosbarth Meithrin, a byddai'r ysgol yn derbyn cyllid fformiwla dirprwyedig ar gyfer y ddarpariaeth newydd.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg yn rhan o'r cynnig hwn.

Mae'r awdurdod lleol wedi darparu Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn rhan o'r cynnig hwn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Mae'n ymddangos bod y cynigiwr yn rhoi sylw gofalus i ddeilliannau addysgol. Mae'r cynnig yn defnyddio adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn, gan nodi cryfderau presennol ac argymhellion ar gyfer gwella. Mae'n tybio'n rhesymol y byddai Ysgol Gymraeg Y Tymbl yn cyflenwi darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant 3–11 oed i safon sydd o leiaf gyfwerth â'i chynnig 4–11 presennol. Felly, ni ragwelir y bydd unrhyw effaith negyddol ar safonau na chynnydd disgyblion.

Mae adroddiad diweddaraf Estyn yn amlygu bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau bod yn yr ysgol ac yn teimlo'n hapus o fewn ei hethos cynhwysol, cartrefol a gofalgar. Mae'r diwylliant effeithiol a chynhwysol hwn yn awgrymu bod ehangu darpariaeth yn annhebygol o gael effeithiau andwyol ar les disgyblion. Mae'n ymddangos bod hwn yn ddatganiad rhesymol.

Mae'r cynnig yn nodi bod y pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth gadarn. Mae'r weledigaeth hon wedi'i seilio ar greu amgylchedd hapus a chynhwysol sy'n hyrwyddo datblygiad medrau pob un o'r disgyblion a'u lles emosiynol, corfforol a chymdeithasol hyd yr eithaf. Disgwylir y bydd cynnydd yn niferoedd y disgyblion yn gwella effeithlonrwydd o ran adnoddau ac yn cyfrannu at gynaliadwyedd yr ysgol yn y tymor hir. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

Mae'n ymddangos bod anghenion grwpiau bregus, gan gynnwys dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai o gefndiroedd sy'n ddifreintiedig yn economaidd, yn cael eu hystyried yn ofalus. Disgwylir y bydd mynediad cynharach at addysg yn cefnogi nodi anghenion dysgu unigol a darparu ymyriadau priodol yn amserol, gan wella deilliannau dysgwyr. Mae'r cynnig yn mynegi hyder yng ngallu'r ysgol i gyflwyno cwricwlwm pwrpasol i ddiwallu anghenion pob disgybl. Mae'n ymddangos bod hyn yn rhesymol.

**Ffactorau penodol lle mae cynigion yn ymwneud ag ychwanegu dosbarthiadau meithrin**

Mae'n ymddangos bod y Cyngor wedi ystyried adeiladau, cyfleusterau a hyfywedd tymor hir yn briodol. Er y byddai angen ailstrwythuro dosbarthiadau mewnol rhywfaint i dderbyn disgyblion ychwanegol yn y dosbarth Meithrin, ni ragwelir y bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar allu'r ysgol i gyflwyno'r cwricwlwm llawn i'r disgyblion ieuengaf. Gan fod yr ysgol yn gweithredu islaw'r capasiti ar hyn o bryd, ni fyddai angen gwneud unrhyw newidiadau i'r strwythur dosbarthiadau presennol yn yr ysgol i dderbyn y disgyblion ychwanegol yn y dosbarth Meithrin. Byddai capasiti a nifer derbyn yr ysgol yn aros yr un fath. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y ddarpariaeth feithrin ychwanegol yn hybu niferoedd y disgyblion ac yn cael effaith gadarnhaol ar ei hyfywedd. Mae'n ymddangos bod hon yn rhagdybiaeth resymol. Fodd bynnag, nid yw'r cynnig yn cyfeirio at addasrwydd y gofod awyr agored sydd ar gael yn yr ysgol ar gyfer disgyblion ychwanegol yn y dosbarth Meithrin.

Mae'r cynnig yn amlinellu bwlch yn narpariaeth addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg o fewn dalgylch Ysgol Gymraeg Y Tymbl. Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, mae'r ysgol yn anelu at ddatblygu darpariaeth gofal cofleidiol ochr yn ochr ag addysg y blynyddoedd cynnar, gan gynnig ymagwedd integredig at ddysgu a gofal.

Mae'r cynnig yn cydnabod yr effaith bosibl ar ddarparwyr addysg y blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sy'n agos at Ysgol Gymraeg Y Tymbl, y mae'r un agosaf 1 milltir yn union o'r ysgol. Mae'r cynnig yn datgan y gall rhanddeiliaid allweddol ymateb i'r cynnig gydag unrhyw bryderon a allai fod ganddynt ac y bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr holl safbwyntiau ac effeithiau posibl cyn gwneud penderfyniad.

## ATODIAD B – YMGYNGHORIAD Â DISGYBLION

**Ymgynghoriad Plant Ysgol Gymraeg Y Tymbl**
**07/10/2025**

### Efallai y bydd eich ysgol yn newid!

Rydyn ni eisiau gwybod beth ydych chi'n **ei feddwl** os yw ein hysgol yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma. Mae hynny'n golygu y gallai fod **plant iau** yn ymuno.

Helpwch ni trwy ateb y cwestiynau hyn. Gallwch **ticio wyneb gwên** a dweud mwy wrthym os ydych chi eisiau!

---

**1. Ydych chi'n gwybod efallai y byddwn yn newid oedran y plant sy'n gallu dod yma?**

😊 Ydw

✏️ **Dywedwch wrthym beth ydych chi'n ei feddwl am hynny:**

**Neis i blant ifancach cael mwy o addysg yn gynharach**

**Mae'n iachus i blant cael dod i ysgol**

**2. Sut fyddech chi'n teimlo am gael plant sy'n iau na chi yn yr ysgol?**

😊 Hapus

✏️ **Pam ydych chi'n teimlo felly?**

**Oherwydd plant ifancach yn cael gweld ni ac allen ni helpu nhw cyfarwyddo**

**3. Beth ydych chi'n ei hoffi fwyaf am eich ysgol?**

✏️ **Ysgrifennwch neu dynnwch lun o'ch hateb yma:**

**Y tripiau**

**Athrawon**

**Amser chwarae**



Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Gwaith

Ffrindiau

Ymarfer corff

Gwaith

---

**4. Beth allai fod yn dda am fwy o blant ifanc yn dod i'n hysgol?**

😊 Gwneud mwy o ffrindiau
🎨 Mwy o hwyl neu gweithgareddau newydd
🏫 Mwy o blant mewn dosbarth

✏️ **Unrhyw bethau da eraill y gallwch chi feddwl amdanynt?**

Gallu fod rôl model i blant bach
Mha blant bach yn cael mwy o addysg ac yn fwy hyderus
Gallu dysgu Cymraeg yn gynharach
Gallu gweld brodyr a chwiorydd bob dydd

**5. A oes unrhyw beth rydych chi'n poeni amdano os yw'r ysgol yn newid?**

**Dim Concyrns yn gyffredinol**

✏️ **Dywedwch fwy wrthym neu dynnwch eich pryderon:**

**O bosib, bydd yr athrawon yn mund yn fwy stressed**

**6. Beth hoffech chi ei ddweud wrth yr oedolion sy'n gwneud y penderfyniad?**

✏️ **Dyma'ch lle i rannu eich syniadau!**

Mha blant bach yn cael mwy o addysg ac yn fwy hyderus
Gallu dysgu Cymraeg yn gynharach

**Diolch am ein helpu!**
Mae eich meddyliau yn bwysig iawn.